# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a’r Cadetiaid

## Cofnodion y Cyfarfod

Dyddiad: 17 Gorffennaf 2019

Lleoliad: Ystafell Briffio'r Cyfryngau

Yn bresennol:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Darren Millar AC | Aelod Cynulliad Gorllewin Clwyd |
| Y Comander Steve Henaghen | Gorchymyn Rhanbarthol y Llynges Cymru a Gorllewin Lloegr |
| Y Cyrnol Nick Beard | RFCA Cymru |
| Y Cadlywydd Adain P Sagar | Sgwadron 614 Caerdydd |
| Uwchgapten Craig Middle | Brigâd 160 y Milwyr Traed a Phencadlys Cymru |
| Peter Evans | Llywodraeth Cymru |
| Heather Ferguson | Age Cymru |
| Rachel MacManus | Help for Heroes |
| Jeff Maddison | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Alun Davies AC | Aelod Cynulliad Blaenau Gwent |
| Lisa Rawlings | Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog, Gwent |
| Millie Taylor | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Sarah Court | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| John William | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| David Rowlands AC | Aelod Cynulliad Dwyrain De Cymru |
| Tyler Walsh | Ceidwadwyr Cymreig |
| Mike Bailey | Gwasanaeth Lles y Cyn-filwyr (Y Weinyddiaeth Amddiffyn) |
| Ryland Royle | Swyddfa Mike Hedges AC |
| Alan Vernon-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Bethan Sayed AC | Aelod Cynulliad Gorllewin De Cymru |
| Rob Nichols | Care After Combat |
| Mohammad Asghar AC | Aelod Cynulliad Dwyrain De Cymru |
| Mark Isherwood AC | Aelod Cynulliad Gogledd Cymru |
| Rhianon Passmore AC | Aelod Cynulliad Islwyn |
| Emlyn Pratt | Swyddfa Rhiannon Passmore AC |
| Lisa Thipthorp | Gweithgor Tri Gwasanaeth Forces Families Jobs |
| Andrew Mansfield | Y Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog |

| | |
|---|---|
| Sarah Price | Y Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog |
| Emma Grant | Wave Radio |
| Kate McCulloch | Y Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog |
| Lisa Rawlings | Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog, Gwent |

Ymddiheuriadau:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Janette Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Llyr Gruffydd AC | Aelod Cynulliad Gogledd Cymru |
| Dai Lloyd AC | Aelod Cynulliad Gorllewin De Cymru |
| Shelly Elgin | Help for Heroes |
| Helen Mary Jones AC | Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Geraint Jones | CAIS |
| Stephen Townley | Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog, Wrecsam |
| Lisa Leece | Gwasanaeth Lles Meddygol Amddiffyn St John a'r Groes Goch |
| Neil Kitchiner | GIG Cymru i Gyn-filwyr |
| Yr Athro David Rose | Prifysgol East Anglia |
| Comodor yr Awyrlu Dai Williams | Yr Awyrlu Brenhinol |

Crynodeb o’r cyfarfod: Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a’r Cadetiaid

Ystafell Briffio’r Cyfryngau, 12.30 - 1.30pm

1. Croeso a chyflwyniadau

2. Diweddariadau o'r cyfarfod diwethaf –

- Nid ymrwymodd y Prif Weinidog i ymestyn ymgyrch Cymru'n Cofio ond ymrwymodd i sicrhau etifeddiaeth y rhaglen drwy gynnal y wefan y tu hwnt i 2020.

- Roedd cardiau adnabod cyn-filwyr wedi’u cyflwyno i ymadawyr gwasanaeth ac mae cynlluniau ar waith i alluogi cyn-filwyr i wneud cais am eu cardiau adnabod erbyn diwedd 2019.

- Ymrwymodd y Prif Weinidog i edrych ar y cynllun gwarantu cyfweliad ar ôl cael llythyr gan y grŵp. Disgwylir diweddariad gan Lywodraeth Cymru maes o law.

- Cynhaliwyd Digwyddiad Wythnos Milwyr Wrth Gefn yn y Senedd ar 24 Mehefin a drefnwyd gan Gymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru a'i noddi gan Darren Millar AC a Llywodraeth Cymru. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyrnol Nick Beard a'i dîm am eu cymorth.

3. Diweddariad gan Age Cymru ar Brosiect 360.

- Cafodd y grŵp gyflwyniad gan Heather Ferguson ar Brosiect 360 Age Cymru.

- Tynnodd Heather sylw at ymchwil a gynhaliwyd yn ddiweddar a rhannodd rai o'r canfyddiadau â'r grŵp.

- Caiff adroddiad gyda'r holl ganfyddiadau ei gyhoeddi'n fuan. **Cytunwyd y dylid dosbarthu hyn ymhlith y grŵp.**

- Tynnodd Heather sylw at y gwaith roedd Age Cymru wedi bod yn ei wneud o ynghylch ymwybyddiaeth pensiwn i gefnogi cyn-filwyr sy'n hawlio eu pensiynau rhyfel a phensiynau'r lluoedd arfog. **Cytunwyd y dylid dosbarthu gwybodaeth am y prosiect ymwybyddiaeth pensiwn i Aelodau'r Cynulliad i'w gwneud yn ymwybodol o'r ymgyrch hon.**

- Rhoddwyd diweddariad i becyn hyfforddi Cymuned y Lluoedd Arfog a ddatblygwyd gan dîm Prosiect 360 ac a ddarperir i holl staff Age Cymru i'w hyfforddi i gyfathrebu'n effeithiol â chyn-filwyr.

- Rhoddwyd diweddariad ar y rhaglen grantiau a ddyrannodd gyllid i sefydliadau partner i roi cymorth i gyn-filwyr.

- Bydd cynhadledd Prosiect 360 yn cael ei chynnal ar 24 Hydref 2019 yn Stadiwm Dinas Caerdydd. **Bydd manylion am gynhadledd Prosiect 360 yn cael eu dosbarthu i'r grŵp.**

- Diolchodd Darren Millar AC i Heather Ferguson am ddiweddaru'r grŵp. Diolchodd Heather i'r grŵp.

- Gofynnodd Darren Millar AC a fyddai modd cyflwyno pecyn hyfforddi Cymuned y Lluoedd Arfog i wasanaethau cyhoeddus. Dywedodd Heather nad oedd adnoddau ar gael i hyfforddi staff y tu allan i'r sefydliad. Awgrymodd Darren Millar AC ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn i raglen debyg gael ei chyflwyno i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cadarnhaodd Lisa Rawlings fod Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yn ymgymryd â rôl hyfforddi yn eu priod awdurdodau lleol.

4. Cyflwyniad gan y Gweithgor Tri Gwasanaeth ar Forces Families Jobs.

- Cafodd y grŵp gyflwyniad gan Lisa Thipthorp ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gweithgor Tri Gwasanaeth ar Forces Families Jobs.

- Deilliodd y prosiect o ymchwil a gomisiynwyd gan Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin a wnaeth argymhellion allweddol ynghylch anawsterau cadw staff yn y Lluoedd Arfog.

- Un o argymhellion allweddol yr adroddiad hwnnw oedd y byddai llwyfan swyddi ar-lein i ŵyr a gwragedd priod yn gwella cyfraddau cadw staff yn y Lluoedd Arfog.

- Dangosodd Lisa y wefan gyrfa i'r grŵp a oedd wedi'i datblygu a'i lansio i ŵyr a gwragedd priod milwyr.

- Lansiwyd y wefan ar 15 Gorffennaf ac mae'n gweithredu fel siop un stop ar gyfer datblygu gyrfa i ŵyr a gwragedd priod milwyr. Mae'r wefan am ddim i gyflogwyr ei defnyddio.

- Mae digwyddiad lansio yng Nghymru ar gyfer y gwasanaeth wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2019.

- Diolchodd Darren Millar AC i Lisa am gyflwyno i'r grŵp. Diolchodd Lisa i'r grŵp.

- Gofynnodd Darren Millar AC a fu gwaith i ehangu cynlluniau gwarantu cyfweliad i gynnwys gŵyr a gwragedd priod personél milwrol sy'n gwasanaethu. Dywedodd Lisa y byddai'n ystyried hyn. Dywedodd Lisa Rawlings (Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog, Gwent) fod pedwar o'r pum cyngor y mae'n gweithio ynddynt eisoes yn gwneud hyn. **Cytunodd y Grŵp i ysgrifennu at awdurdodau lleol**

**eraill Cymru i hyrwyddo cynlluniau gwarantu cyfweliad i gyn-filwyr a'u gŵyr a'u gwragedd priod.**

5. Cyflwyniad gan y Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog.

- Cafodd y grŵp gyflwyniad gan Kate McCulloch ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog.
- Amlinellodd Kate nod cyffredinol y gwasanaeth sy'n rhan o bolisi cymorth trosglwyddo cyfannol y lluoedd arfog.
- Bydd y Gwasanaeth Pontio Amddiffyn yn fyw ac yn dechrau cefnogi ymadawyr gwasanaeth a'u teuluoedd erbyn mis Medi 2019.
- Mae dau reolwr rhanbarthol ar gyfer Cymru, sef Andy Mansfield a Stewart Horton sy'n gyfrifol am Dde Cymru a Chanolbarth Lloegr, a Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr yn ôl eu trefn. Nid yw'r un ohonynt yn gweithio yng Nghymru.
- Diolchodd Kate i Peter Evans o Lywodraeth Cymru am roi cymorth i'w gwasanaeth newydd.
- Amlinellodd Kate sut y bydd y gwasanaeth yn gwella'r broses o roi cymorth i bobl sy'n gadael gwasanaeth.
- Bydd y gwasanaeth yn cydweithredu â gwasanaethau eraill i wella'r broses.
- Bydd y gwasanaeth yn cynnwys dulliau hunan-atgyfeirio ac atgyfeirio teulu i alluogi aelodau teulu'r sawl sy'n gadael y gwasanaeth i atgyfeirio eu hunain i'r gwasanaeth.
- Diolchodd Darren Millar AC i Kate am gyflwyno i'r grŵp. Diolchodd Kate i'r grŵp.
- Gofynnodd Rhiannon Passmore AC a oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi pe bai'r galw yn fwy na chapasiti'r gwasanaethau ac a fyddai'r gwasanaeth yn addas at y diben pe bai'r galw'n cynyddu. Atebodd Kate ei bod yn credu bod y gwasanaeth yn addas at y diben.

5. Unrhyw fater arall

- Diolchodd Darren Millar AC i bawb am ddod.

- Dosbarthodd Mohammad Asghar daflenni ar gyfer ffair yrfaoedd y mae'n ei noddi yng Nghasnewydd.

- Dywedodd Peter Evans o Lywodraeth Cymru wrth y grŵp y byddai diweddariad ar yr ymarfer mapio a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu ym mis Medi. **Cytunwyd y byddai cyfarfod grŵp yn y dyfodol yn canolbwyntio ar yr ymarfer mapio hwnnw.**

<u>Pwyntiau gweithredu</u>

1. Dosbarthu gwybodaeth am ymgyrch ymwybyddiaeth pensiynau Project 360 i Aelodau'r Cynulliad.

2. Adroddiad Prosiect 360 i'w ddosbarthu ar ôl ei gyhoeddi.

3. Gwahoddiad i’w ddosbarthu ar gyfer cynhadledd Prosiect 360.

4. Ysgrifennu at holl arweinwyr a Phrif Weithredwyr awdurdodau lleol Cymru i'w hannog i fabwysiadu cynlluniau gwarantu cyfweliad i gyn-filwyr a gŵyr a gwragedd priod milwyr.

5. Cynnwys adborth ar ymarfer mapio Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.